**Cynllunio Rhanbarthol Anghenion Addysgol Arbennig**

**Prosiect De-Ddwyrain Cymru**

# Anghenion Gwybodaeth

1. **Data Lefel Disgyblion**

Enw, D.G., blwyddyn C/C, cyfeiriad, ethnigrwydd, iaith, angen, darpariaeth bresennol, adnoddau sydd eu hangen, personél, cofnod presenoldeb, gwybodaeth gwaharddiad, adolygiadau AAA, trafnidiaeth.

Trosglwyddir pob data lefel disgyblion i'r Gronfa Ddata Ranbarthol trwy Addysg.

1. **Darpariaeth ac Adnoddau**

Pob darpariaeth sydd ar gael, y nifer y mae'n gallu darparu ar ei gyfer a'i natur, darpariaeth a ddefnyddir y tu allan i'r ardal a'r gost, darpariaeth a ddefnyddir ar sail ranbarthol a'r gost, offer a gedwir yn ganolog, grwpiau cymorth i rieni, gweithgareddau hamdden, trefniadau cyllido, personél sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth.

1. **Gwasanaethau**

Gwasanaethau AAA sydd ar gael, cyngor a chyfarwyddyd i rieni, grwpiau cynnal.

1. **Swyddi Gwag Staff AAA**

Pob swydd wag i'w hysbysu i gydlynydd y prosiect er mwyn iddi ymddangos ar y wefan ac yn y cylchlythyr. Adran bersonél pob sefydliad i'w hysbysu am fodolaeth y prosiect a'i nodau parthed cadw staff arbenigol AAA yn yr ardal.

1. **Hyfforddi**

Digwyddiadau hyfforddi aml-asiantaeth i'w trefnu lle bo hynny'n bosibl. Asiantaethau eraill i'w hysbysu'n uniongyrchol neu drwy gydlynydd y prosiect.

1. **Digwyddiadau AAA**

Pob asiantaeth i hysbysu am seminarau, cynadleddau a digwyddiadau eraill a allai fod o ddiddordeb i bobl broffesiynol eraill ac i rieni.

1. **Gwasanaethau ar y Cyd**

Gwasanaethau a ddarperir ar draws awdurdodau ac i bwy. Meini prawf am gynhaliaeth a chyllid. Canfod AAA nad ydynt yn codi'n aml. Anawsterau wrth ddarparu Gwasanaethau ar y Cyd ac ardaloedd ar gyfer gwella.

1. **Grwpiau Gwirfoddol a Sefydliadau**

Pob gwasanaeth a grwp cynnal sydd ar gael.

1. **Gwybodaeth Ddaearyddol**

Pob data disgybl a darpariaeth fel y'i rhestrwyd. Mapiau o awdurdodau.

1. **Monitro Cynnydd Pobl Ifainc Ôl-16**

Canfod 14+. Adolygu adolygiadau trosglwyddiadol. Adolygiad o ddull aml-asiantaeth o fynd i'r afael ag adolygiad. Trefniadau gofal trosglwyddiadol o bediatreg i wasanaethau oedolion, gwasanaethau plant i oedolion ac ysgolion i addysg bellach a gwasanaethau gyrfaoedd.

1. **Gwybodaeth Meincnodi Cymru Gyfan**

Casglu data o addysg ar wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer Meincnodi Cymru Gyfan, er mwyn rhannu arfer gorau.

1. **Trefniadau Cyllido**

Costau unedol lleoliadau, cyllideb AAA bresennol, costau trafnidiaeth, cost darpariaeth ranbarthol ac allan o'r sir.

**Ffynonellau Gwybodaeth**

Bydd Addysg yn darparu pob data lefel disgyblion. Bydd angen llawer o'r wybodaeth am ddarpariaeth a gwasanaethau oddi wrth Addysg, gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Iechyd ynghyd â'r Sector Gwirfoddol lle bo hynny'n gymwys. Gall gwybodaeth arall am ddigwyddiadau hyfforddi, cyrsiau, cynadleddau a grwpiau cymorth ddod o amrywiaeth o ffynonellau. Dylid cael mynediad at wybodaeth ôl-16 trwy golegau addysg bellach a gwasanaethau gyrfaoedd. Dylai gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi partner asiantaethau ddod hefyd yn uniongyrchol oddi wrth Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Awdurdod Iechyd.

Dylai Cyfarwyddwyr a Phrif Swyddogion hysbysu'r personél perthnasol am yr angen i gyflwyno gwasanaeth cyn gynted byth ag y bo modd i gydlynydd y prosiect wedi iddynt dderbyn cais amdani.

**Derbynwyr Gwybodaeth**

Mae pob gwybodaeth ar gyfer y prosiect i'w chydlynu gan Gydlynydd y Prosiect a'r cynorthwy-ydd gweinyddol ar gyfer y prosiect.

Dadansoddir a rhennir gwybodaeth ar sail gyffredinol yn unig.

Dychwelir gwybodaeth i awdurdodau cartref, os oes angen, ar sail ardal unigol yn unig.

Bydd gwybodaeth am bob ardal ar gael i gyd-ddarparwyr gwasanaeth wrth iddynt weithio ar draws y rhanbarth.

Byddwn yn ystyried defnyddio'r Gronfa Ddata, ar gyfer holi parthed materion yn ymwneud â Gwarchod Plant ar draws y rhanbarth.

Rhoddir gwybodaeth i rieni a phobl ifainc ar sail gyffredinol.